**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu (Statudol) a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynhadledd ddydd Iau, 16 Medi 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones (Cadeirydd) y Cynghorwyr Clive Davies, Gareth Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elaine Evans, Hag Harris, Dan Potter, Ivor Williams a Matthew Woolfall Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Aelod Cabinet)

**Swyddogion yn Bresennol:** Mr Aluh Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad, Ms Anne Louise – Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu, Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol – Diogelu'r Cyhoedd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am–10:20am)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Euros Davies a Mark Strong am na allent fynychu'r cyfarfod.

2 **Personal**

Cydymdeimlwyd â theulu Mr Barry Evans a fu farw yn ddiweddar. Roedd Mr Evans wedi gweithio fel Swyddog Trwyddedu gyda'r Cyngor cyn iddo ymddeol.

3 **Datgelu buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim.

4 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020

5 **Diweddariad Cyffredinol**

**Diweddariad Cyffredinol**

Ystyriwyd Adroddiad y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu a'r Uwch Swyddog Trwyddedu yn sôn wrth yr Aelodau am weithgarwch a wnaed gan yr Adran Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel a ganlyn:-

- Rheoliadau Coronafeirws – Diweddariad
- Adolygiadau o Drwyddedau Mangreoedd - Deddf Trwyddedu 2003
- Grŵp Digwyddiadau a Gweithgareddau (Covid-19)
- Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop UEFA 2020) 2021
- Adolygiad Polisi Gamblo
- Materion Gamblo

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:-
(i) i nodi'r adroddiad er gwybodaeth;
(ii) i argymell i'r Cyngor yn ystod ystyriaeth yr adolygiad o'r Adolygiad Polisi Gamblo fabwysiadu polisi 'Dim Casino' fel y cytunwyd o'r blaen yn y Cyngor yn 2018; a
(iii) y byddai'r cadeirydd yn ysgrifennu at y comisiwn gamblo mewn perthynas â chyfyngu ar hysbysebu gwefannau gamblo.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 18 Tachwedd 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**